

# Archwilio Trafnidiaeth

## Am beth ydw i'n chwilio?

- Mae pobl wedi bod angen symud o gwmpas y wlad erioed. Mae'r modd mae pobl yn symud wedi newid dros amser. Ar y dechrau, cerdded oedd yr unig ddewis. Yna daeth ceffylau, camlesi, beiciau, rheilffyrdd, tramiau, ceir ac awyrennau.

- Mae pob un o'r gwahanol fathau o drafnidiaeth yn creu newid i'r tirlun. Gallwch chi sylwi ar rhain os ydych chi'n gwybod beth i edrych amdano!



## Sut mae dysgu rhagor am drafnidiaeth?




- Cychwynnwch trwy edrych ar enwau strydoedd am gliwiau. Os ydyn nhw'n enwi ffordd hŷn o deithio, ee 'Ffordd y Gamlas', Stryd yr Orsaf', 'Clos y Tolldy', mae hyn yn awgrymu y math o drafnidiaeth oedd arfer â bod yno.

- Edrychwch am blaciau ar waliau sy'n dweud wrthoch am adeiladau fel tolltai a thafarndai coetsis oedd unwaith yn gysylltiedig â thrafnidiaeth.



- Cadwch olwg am unrhyw adeilad neu adfail, fel hen bwyntiau fferi, pontydd neu feysydd awyr.

- Mae mapiau'n fanwl iawn ac yn dangos unrhyw bethau sy'n dal i gael eu gweld yn y tirlun fel camlesi a rheilffyrdd sydd bellach wedi eu codi.

- Mae llawer o ffyrdd modern yn dilyn yr un llwybr â'r ffyrdd a adeiladwyd gan y Rhufeiniaid. Mae hen ffyrdd Rhufeinig hefyd yn cael eu dangos ar fapiau.

© BBC



Cafodd yr hen fferi oedd yn rhedeg o'r lanfa hon ei disodli gan y bont.




Mae arwyddion ffyrdd yn rhoi cliw i chi am lwybrau trafnidiaeth yn y gorffennol.



Allwch chi weld y fynedfa fwaog lle byddai'r ceffyl a chert yn mynd oddi tani i gyrraedd y stablau?




Edrychwch am y ddau hen lwybr trafnidiaeth ar y map yma.





Allwch chi ddweud p'run o'r rhain oedd yn hen linell tram a ph'run oedd yn loc camlas?



Tolltai oedd hen adeiladau â siâp fel hyn. Roeddech yn arfer gorfod talu'r dyn oedd yn byw yno i gael defnyddio'r ffordd.

© BBC